# Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

**2023 dsc 2**

*Gwaharddiad ar gyflenwi cynhyrchion plastig untro penodol*

## 1 Cysyniadau allweddol: "cynnyrch plastig", "untro" a "plastig"

(1) Mae'r adran hon yn diffinio cysyniadau allweddol penodol at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Ystyr "cynnyrch plastig" yw cynnyrch—

(a) y mae ei holl brif gydrannau strwythurol, neu unrhyw un neu ragor o'r prif gydrannau hynny, wedi ei wneud o blastig yn gyfan gwbl neu'n rhannol, neu

(b) sydd â leinin neu araen sydd wedi ei gwneud o blastig yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

(3) Ystyr "untro", mewn perthynas â chynnyrch plastig, yw cynnyrch nad yw wedi ei ddylunio neu ei weithgynhyrchu i'w ddefnyddio at y diben y'i dyluniwyd neu y'i gweithgynhyrchwyd ar ei gyfer fwy nag unwaith (neu ar fwy nag un achlysur) cyn ei waredu.

(4) Ystyr "plastig" yw deunydd ar ffurf polymer, ac eithrio adlyn, paent neu inc, ac mae'n cynnwys deunydd ar ffurf polymer sydd â sylweddau eraill wedi eu hychwanegu ato.

(5) Yn is-adran (4), o ran y cyfeiriad at "polymer"—

(a) mae'n golygu polymer sy'n gallu gweithredu fel prif gydran strwythurol cynnyrch;

(b) nid yw'n cynnwys polymer naturiol nad yw wedi ei addasu yn gemegol.

(6) At ddibenion is-adran (3), ystyrir bod bag siopa wedi ei ddylunio i'w ddefnyddio i gludo nwyddau fwy nag unwaith cyn ei waredu oni bai ei fod wedi ei wneud o ffilm blastig o ddim mwy na 49 micron o drwch (ac os felly caiff ei ystyried yn gynnyrch plastig untro).

**2 Cynhyrchion plastig untro gwaharddedig**

(1) At ddibenion y Ddeddf hon, mae cynnyrch plastig untro wedi ei wahardd—

(a) os yw'n gynnyrch a restrir yng ngholofn 1 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen, a

(b) os nad yw unrhyw esemptiad mewn cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw yn gymwys mewn cysylltiad â'r cynnyrch hwnnw.

(2) Yn y Ddeddf hon cyfeirir at gynnyrch sy'n dod o fewn is-adran (1) fel "cynnyrch plastig untro gwaharddedig".

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi canllawiau ynghylch—

(a) y cynhyrchion plastig untro sydd wedi eu gwahardd o dan y Ddeddf hon;

(b) cymhwyso unrhyw esemptiadau a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen

**3 Cynhyrchion plastig untro gwaharddedig: pŵer i ddiwygio**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r Atodlen—

(a) i ychwanegu cynnyrch at golofn 1 o'r Tabl ym mharagraff 1, neu i ddileu cynnyrch o'r golofn honno;

(b) i ychwanegu esemptiad at golofn 2 o'r Tabl ym mharagraff 1, neu i ddileu esemptiad o'r golofn honno, neu i ddiwygio esemptiad yn y golofn honno;

(c) i ychwanegu diffiniad at baragraff 2, neu i ddileu diffiniad o'r paragraff hwnnw, neu i ddiwygio diffiniad yn y paragraff hwnnw.

(2) Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag—

(a) awdurdodau lleol;

(b) Corff Adnoddau Naturiol Cymru ac unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn ymwneud â hybu diogelu'r amgylchedd yng Nghymru;

(c) y personau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn cynrychioli buddiannau cynhyrchwyr neu gyflenwyr cynhyrchion plastig untro yng Nghymru;

(d) y personau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn cynrychioli buddiannau pobl sydd â nodwedd warchodedig o fewn yr ystyr a roddir i "protected characteristics" yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p.15), ac y gall y rheoliadau gael effaith benodol arnynt am y rheswm hwnnw;

(e) y personau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

**4 Pŵer i ddiwygio: dyletswyddau sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy ac adrodd**

(1) Wrth ystyried pa un ai i arfer y pŵer yn adran 3, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried eu dyletswydd i—

(a) hybu datblygu cynaliadwy o dan adran 79(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a

(b) ymgymryd â datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).

(2) Yn yr adroddiad y mae'n ofynnol iddynt ei gyhoeddi o dan adran 79(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i Weinidogion Cymru nodi gwybodaeth am eu hystyriaeth ynghylch pa un ai i arfer y pŵer yn adran 3 gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'w hystyriaeth ynghylch pa un ai—

(a) i ychwanegu weips a bagiau bach o saws at golofn 1 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen;

(b) i ddileu esemptiad o golofn 2 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen, neu ddiwygio esemptiad yn y golofn honno mewn cysylltiad â chwpanau, cynhwysyddion cludfwyd a chaeadau ar gyfer y cynhyrchion hyn nad ydynt wedi eu gwneud o bolystyren.